

Rheoli Eithin

Mae eithin yn cynnig llawer o fanteision i fywyd gwyllt, ond heb ei reoli'n ofalus, gall ddominyddu'r dirwedd yn gyflym – gan leihau bioamrywiaeth, cuddio nodweddion archeolegol a chynyddu'r risg o dân. Mae rheoli eithin trwy amrywiaeth o ddulliau yn helpu i gynnal tirwedd amrywiol a gwydn.



Torri gyda llaw ta pheiriant?

Mewn ardaloedd ag archeoleg sensitif, caiff eithin ei dorri â llaw i osgoi tarfu ar nodweddion hanesyddol pwysig a allai fel arall gael eu difrodi gan beiriannau trwm. Heb eu rheoli, gall gwreiddiau eithin danseilio strwythurau claddedig dros amser. Nid yn unig y mae cael gwared ar lystyfiant sydd wedi gordyfu yn amddiffyn y gweddillion ond mae hefyd yn eu gwneud yn haws i'w gweld, eu cofnodi a'u deall. Y tu hwnt i'r safleoedd hyn, defnyddir tractorau a pheiriannau arbenigol i dorri ardaloedd mwy, i greu bylchau tân, ac agor llwybrau ar gyfer bugeilio.

Ar ôl ei dorri, caiff yr eithin ei gasglu â pheiriant neu â llaw, yn dibynnu ar y tir. Mewn rhai ardaloedd, caiff chwynladdwr ei roi'n ofalus ar y coesynnau sydd wedi'u torri i helpu i atal aildyfiant, yn enwedig o amgylch safleoedd archeolegol lle gall gwreiddiau danseilio strwythurau claddedig yn raddol. Yna caiff y deunydd wedi'i dorri â llaw ei losgi mewn cewyll bach ar y mynydd, ac ychwanegir y lludw sy'n weddill at gompost mewn meithrinfeydd coed lleol.

Bydd torri yn cael ei amseru i osgoi prif dymor nythu adar, sydd rhwng tua diwedd mis Mawrth a diwedd mis Medi.

Beth am losgi?

Mae llosgi rhostir dan reolaeth - gan gynnwys eithin - yn arfer rheoli tir hirhoedlog yn ucheldir Cymru. Mae'n cael ei ganiatáu'n gyfreithiol mewn ardaloedd ucheldir rhwng 1 Tachwedd a 31 Mawrth, ond yn ystod oriau golau dydd yn unig, a chyda digon o bobl fedrus, offer priodol ac amodau addas i'w gadw dan reolaeth bob amser.

Mae torri neu losgi eithin dan reolaeth, yn rheolaidd, yn helpu i greu clytwaith o lystyfiant o wahanol faint, sy'n cynnal

bywyd gwyllt, yn creu amodau pori gwell ac yn helpu i atal tanau rhag lledu allan o reolaeth. Fodd bynnag, mae mwy o risgiau yn gysylltiedig â llosgi. Os bydd tanau'n lledu, gallant achosi difrod sylweddol, hirdymor i fywyd gwyllt, nodweddion hanesyddol, priddoedd a'r amgylchedd ehangach, a gallant beryglu pobl ac eiddo. Mewn ardaloedd sensitif megis cynefinoedd gwarchodedig a safleoedd archeolegol, mae torri'n fecanyddol neu â llaw yn cael ei argymhell fel dewis mwy diogel.

Am ragor o wybodaeth gweler y *Cod Llosgi Grug a Glaswellt yng Nghymru 2008*.



Y darlun ehangach

Boed wedi'i dorri neu ei losgi, bydd eithin yn aildyfu, felly mae dilyniant rheolaidd ynghyd â phori yn hanfodol i gadw ei dwf dan reolaeth a lleihau'r angen am ymyrraeth ddwys yn y dyfodol.

Mae rheoli eithin yn barhaus yn helpu i amddiffyn safleoedd hanesyddol, cynnal porfeydd agored a chefnogi amrywiaeth fwy o fywyd gwyllt a chynefinoedd yn y dirwedd yn hirdymor.



PARTNERIAETH TIRWEDD Y
CARNEDDAU
LANDSCAPE PARTNERSHIP

Gwnead yn bostl/gan
Cronfa Treftadaeth
Made possible with
Heritage Fund

Gorse Management

Gorse provides many benefits for wildlife, but without careful management, it can quickly dominate the landscape – reducing biodiversity, obscuring archaeological features, and increasing fire risk. Managing gorse through a variety of methods helps maintain a diverse and resilient landscape.



Cutting by hand or machine?

In areas with sensitive archaeology, gorse is cut by hand to avoid disturbing important historic features that could otherwise be damaged by heavy machinery. Removing overgrown vegetation not only protects the remains but also makes them easier to see, record and understand. Beyond these sites, tractors and specialised machinery are used to cut larger areas, create fire breaks, and open up paths for herding.

After cutting, the gorse is collected by machine or by hand, depending on

the terrain. In some areas, herbicide is carefully applied to the cut stems to help prevent regrowth, particularly around archaeological sites where roots can gradually undermine buried structures. The handcut material is then burned in small cages on the mountain, and the leftover ash is added to compost in local tree nurseries.

Cutting is timed to avoid the main bird nesting season, which is roughly between late March and late September.


What about burning?

Controlled burning of heathland - including gorse - is a long-standing land management practice in upland Wales. It is legally permitted in upland areas between the 1st of November and the 31st of March, but only during daylight hours, and with enough skilled people, proper equipment and suitable conditions to keep it under control at all times.

Periodic, well-managed cutting or burning of gorse helps create a patchwork of vegetation at different stages of growth,

which supports wildlife, enables better grazing and helps prevent fires from spreading out of control. However, burning carries greater risk. If fires do spread, they can cause significant, long-term damage to wildlife, historic features, soils and the wider environment, and can put people and property at risk. In sensitive areas such as protected habitats and archaeological sites, mechanical and hand cutting is recommended as a safer alternative.

For more information see *The Heather and Grass Burning Code for Wales 2008*.



The bigger picture

Whether cut or burned, gorse will regrow, so regular follow-up along with grazing is essential to keep its growth in check and reduce the need for intensive intervention in the future.

Ongoing management of gorse helps to protect historic sites, maintain open pastures and supports a greater variety of wildlife and habitats in the landscape in the long term.



PARTNERIAETH TIRWEDD Y
CARNEDDAU
LANDSCAPE PARTNERSHIP

Gwnead yn bostol gan
Cronfa Treftadaeth
Made possible with
Heritage Fund